**CYPE(6)-04-22 - Papur i'w nodi 23**

**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**

—

**Local Government and Housing Committee**


**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddTai
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHousing@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHousing
0300 200 6565


Jayne Bryant AS,

Cadeirydd

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

3 Chwefror 2022

Annwyl Jayne,

Diolch am eich llythyr ar 6 Ionawr ynghylch digartrefedd ymhlith pobl ifanc. Rydym wedi cytuno y bydd tai addas yn faes gwaith trosfwaol y byddwn yn ei flaenoriaethu. O fewn y maes hwn, rydym wedi nodi y bydd craffu ar bolisïau a chamau sy’n cael eu cymryd i roi terfyn ar ddigartrefedd yn un o’n prif flaenoriaethau dros dymor y Senedd hon, ac y byddwn yn ceisio adeiladu ar waith y Pwyllgor a’n rhagflaenodd.

Yn ddiweddar rydym wedi ysgrifennu at amrywiaeth o randdeiliaid yn eu gwahodd i rannu eu barn ar y sefyllfa bresennol ac i awgrymu materion penodol y gallem ganolbwyntio arnynt wrth ymgymryd â’n gwaith arfaethedig ar ddigartrefedd a chysgu ar y stryd. Byddwn yn ystyried yr ymatebion gan randdeiliaid a sut y gallwn fwrw ymlaen â’r gwaith pwysig hwn yn nhymor yr haf.

Yn gywir

John Griffiths AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.